



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Nodiadau cwblhau technegol i awdurdodau lleol ac ysgolion

Casgliad Ôl-16 – Hydref 2015

Fersiwn 1.0

Y gynulleidfa

Penaethiaid ysgolion uwchradd neu ysgolion canol a gynhelir a fydd â disgyblion Blwyddyn 12 a/neu Flwyddyn 13 neu ddisgyblion uwch yn 2014/15; awdurdodau lleol; darparwyr meddalwedd.

Statws

Nodiadau cwblhau technegol

Dyddiad cyhoeddi

Rhagfyr 2014

Rhagor o wybodaeth

Mae'r nodiadau cwblhau hyn a rhagor o wybodaeth gyffredinol am gasgliad ôl-16 ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/post-16-data-collection/?lang=cy>

Os na allwch gael ateb i'ch cwestiwn ar y wefan cysylltwch â:

Steve Hughes

Ystadegau Ysgolion ac Athrawon
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 5060

e-bost: plasc@wales.gsi.gov.uk

Cysylltwch os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â chyflwyno ffeiliau data ac adroddiadau gwallau.

Natalie Hughes-Owen

Y Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

Ffôn: (01443) 663855

e-bost: post16.plasc@cymru.gsi.gov.uk

Cysylltwch os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â chofnodi data a'r nodiadau cwblhau hyn.

Cynnwys

Trosolwg	2
1. Cyflwyniad	4
2. Mewnbynnu data a gwirio data	6
3. Crynodeb o'r meysydd data i'w dychwelyd yng nghasgliad ôl-16 Hydref 2015	7
4. Gwybodaeth am ysgolion	9
5. Data ar ddisgyblion unigol	10
6. Data ar weithgareddau dysgu a rhaglenni astudio disgyblion unigol	13
7. Dilysu a chywiro gwallau	19
8. Anfon y datganiad i'ch ALI	20
9. Rhagor o wybodaeth	21
Atodiad A: Nodiadau cwblhau manwl yn ôl y meysydd data	22
Atodiad B: Cyfeirnodau gweithgareddau dysgu	57
Atodiad C: Darparwyr casgliad ôl-16 yn nhrefn yr wyddor	87
Atodiad D: Darparwyr casgliad ôl-16 yn nhrefn yr ALI	91
Atodiad E: Darparwyr dysgu eraill	95
Atodiad F: Rhestr o raglenni	99

Trosolwg

Lluniwyd y nodiadau hyn i'w defnyddio gan ysgolion uwchradd, ysgolion canol a gynhelir ac awdurdodau lleol wrth gwblhau'r Casgliad Ôl-16 ym mis Hydref 2015. Y rheswm dros gyhoeddi'r nodiadau hyn yw fel bod ALIau ac ysgolion yn ymwybodol o'r eitemau data sy'n ofynnol gan y Casgliad Ôl-16, ac i helpu ysgolion i ddarparu'r eitemau data hyn i ddiffiniadau cyffredin.

Bydd y casgliad ôl-16 hwn ym mis Hydref 2015 yn gofyn am ddata ar lefel disgyblion, rhaglenni a gweithgareddau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2014/15. Caiff ôl-gasgliad o'r data ei gynnal ym mis Hydref 2015. Bydd y data hyn yn ofynnol er mwyn llywio dyraniadau cyllid ar gyfer 2015/16 a dyma'r ail gasgliad ôl-16 a fydd yn casglu data ynghylch y flwyddyn flaenorol.

Mae'r casgliad hwn yn wahanol i gasgliadau CYBLD Ôl-16 blaenorol ym mis Medi hyd at 2012 oedd yn casglu data am ddysgu a ddechreuodd yn ystod y mis hwnnw yn unig.

Mae'r newidiadau'n cael eu cyflwyno am ddau reswm:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu Ôl-16, yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed. Bwriedir i hyn gynnwys data ynghylch cadw disgyblion felly bydd angen data ar lefel disgyblion, rhaglenni a gweithgareddau er mwyn gallu gwneud y gwaith dadansoddi angenrheidiol.
- Ar ôl cyflwyno rhaglenni astudio Ôl-16 caiff gwybodaeth ei chasglu am y tro cyntaf yn 2015 er mwyn gallu monitro'r gwaith o gyflenwi, yn unol â chynlluniau i sicrhau bod cynlluniau rhaglenni'n cael eu cyflawni.

Dim ond ysgolion uwchradd ac ysgolion canol a gynhelir sydd â disgyblion ym Mlwyddyn 12, 13 a/neu 14 ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol sy'n gorfod cwblhau'r Casgliad Ôl-16 ym mis Hydref 2015. **Nid** oes gofyniad i ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol nac ysgolion uwchradd a gynhelir sydd heb ddisgyblion Blwyddyn 12, 13 neu 14 gwblhau'r Casgliad Ôl-16.

Dylai dysgwr sydd hyd at 19 blwydd oed ar y 31 Awst 2015 cael ei gynnwys yn y datganiad casgliad ôl-16 ar gyfer y flwyddyn honno (mae hyn yn caniatáu ar gyfer dysgwyr sydd wedi bod mewn addysg barhaus, ond wedi methu neu ail-eistedd blwyddyn). Ni ddylid cynnwys dysgwyr sydd yn hŷn na 19 ar y dyddiad yma yn y datganiad. Mae'r Ddeddf Addysg 1996 yn datgan: *"... 'pupil' means a person for whom education is being provided at a school, other than— (a) a person who has attained the age of 19 for whom further education is being provided, or (b) a person for whom part-time education suitable to the requirements of persons of any age over compulsory school age is being provided"*. Felly, dim ond data ar gyfer dysgwyr hyd 19 oed, fel y nodwyd uchod, sydd angen darparu.

Dylai ysgolion weithio'n unol â'r amserlen ganlynol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno datganiad heb unrhyw wallau ynddo ac sydd mor gywir â phosibl i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Hydref 2015. Ni chaniateir cyflwyno rhagor o ddata ar ôl y dyddiad hwn.

Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol ni fydd AdAS yn adrodd yn ôl i ysgolion ynghylch y data a dderbyniwyd. Bydd hyn yn symleiddio'r amserlen isod.

<u>Amserlen</u>	
Dyddiad	Cam Gweithredu
22 Medi 2015	DEWi yn agor ar gyfer Data Casgliad Ôl-16
Dyddiad a ddiffinnir gan yr ALI	Anfon datganiad i'r ALI
19 Hydref 2015	Rhewi Data

Dyma strwythur y ddogfen hon: mae adrannau 1 i 3 yn rhoi gwybodaeth ragarweiniol am yr hyn sy'n ofynnol yn y datganiad Casgliad Ôl-16. Mae adrannau 4 i 6 a'r Atodiadau yn disgrifio pob eitem sy'n ofynnol yn fanwl, gan roi gwybodaeth lle bo'n briodol am:

- natur y data i'w dychwelyd;
- y codau/categoriâu dilys i'w defnyddio;
- pam bod angen y data;
- gwybodaeth gefndirol yn rhoi manylion unrhyw sefyllfaoedd neu gafeatau arbennig sy'n berthnasol;

Mae adrannau 7 i 10 yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am archwilio'r data, y broses ddilysu a'r amserlen a'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno'r datganiad.

Y prif newidiadau ers y flwyddyn ddiwethaf

- Dyddiadau wedi eu symud ymlaen (blwyddyn)
- Caiff rhaglenni astudio eu cofnodi, yn ogystal â gweithgareddau dysgu
- Caiff data ynghylch oriau cyswllt dan arweiniad eu casglu ar lefel rhaglenni
- Caiff casgliad Hydref 2015 (ôl-gasgliad ar gyfer 2014/15) ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo dyraniadau cyllid a pherfformiad.
- NODER: Mae rheolau dilysu wedi'u cynnwys ar gyfer y Casgliad Ôl-16 ers 2012/13 a fydd yn arwain at greu ymholiad ar gyfer disgyblion heb Rif Unigryw Dysgwr (RhUD) dilys. A fydddech cystal â sicrhau felly y bydd yr holl ffeiliau RhUD yn cael eu lawrlwytho cyn dyddiad y Casgliad Ôl-16 ac y byddwch yn delio â'r holl eithriadau cyn hynny hefyd.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Argymhellodd yr [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed](#) y dylid datblygu mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16.
- 1.2 Er mwyn gallu monitro'r gwaith cyflenwi yn erbyn cynlluniau mae angen casglu gwybodaeth am gofrestru ar raglenni ar lefel dysgwyr unigol ac ar lefel gyfun.
- 1.3 Bydd dadansoddiad o gofnodion disgyblion unigol, gweithgareddau dysgu a rhaglenni astudio o'r Casgliad Ôl-16, ar y cyd â chanlyniadau arholiadau'r disgyblion, yn rhoi amrediad llawer ehangach o wybodaeth nad oedd ar gael o'r blaen i ysgolion, ALLau ac asiantaethau canolog.
- 1.4 Defnyddir yr wybodaeth hon yn bennaf i gefnogi'r gwaith o dargedu cyllid yn fwy cywir, ac i fonitro a datblygu polisiau. O dan y Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Ôl-16 bydd data'r Casgliad Ôl-16 yn cael eu defnyddio i gyfrifo dyraniadau cyllido. Bydd y dyraniadau hyn yn seiliedig ar y data perthnasol ar weithgareddau dysgu, rhaglenni astudio a disgyblion, felly mae'n hanfodol bod y datganiadau wedi'u cwblhau mewn da bryd ac wedi'u gwirio i sicrhau eu bod yn gywir.
- 1.5 Nodweddion allweddol y Casgliad Ôl-16:
 - Yn casglu data yn ymwneud â disgyblion Blwyddyn 12, 13 a 14 yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol;
 - Yn casglu data ar gyfer disgyblion hyd at 19 blwydd oed ar y 31 Awst 2015 (mae hyn yn caniatáu ar gyfer dysgwyr sydd wedi bod mewn addysg barhaus, ond wedi methu neu ail-eistedd blwyddyn). Ni ddylid cynnwys dysgwyr sydd yn hŷn na 19 ar y dyddiad yma yn y datganiad;
 - Yn cynnwys data am yr holl weithgareddau y mae unrhyw un o'r disgyblion hyn wedi'u dilyn yn ystod y flwyddyn academaidd **flaenorol**;
 - Mae'r data sy'n ofynnol ar lefel gweithgaredd dysgu a rhaglen astudio (h.y. cwrs) ac nid ar lefel y disgybl yn unig.
- 1.6 Bydd llawer o'r cofnodion am weithgareddau dysgu a disgyblion unigol ar gyfer y Casgliad Ôl-16 wedi'u cynhyrchu'n awtomatig gan eich meddalwedd gwybodaeth reoli ac efallai na fydd modd addasu rhannau ohonynt â llaw. **Felly mae'n hanfodol bod yr holl ddata perthnasol ar ddisgyblion a, lle bo'n briodol, yr holl ddata perthnasol ar ddosbarthiadau, wedi'u rhoi yn eich system cyn llunio datganiad Casgliad Ôl-16.**
- 1.7 Unwaith y bydd datganiad eich Casgliad Ôl-16 wedi'i lunio mae'n hanfodol ei fod yn cael ei wirio'n ofalus cyn ei gyflwyno. Dylai eich meddalwedd System Gwybodaeth Reoli (MIS) wneud cyfres eang o wiriadau dilysu ar ddatganiad Casgliad Ôl-16, a llunio adroddiadau ar wallau ac ymholiadau. **Mae angen cywiro pob gwall a gwirio ymholiadau cyn cyflwyno'r datganiad i'ch ALL.** Os bydd y datganiad yn cynnwys gwallau sylweddol pan fydd yn cyrraedd Llywodraeth Cymru, efallai y bydd angen ei gywiro a'i ailgyflwyno (gweler adran 7).
- 1.8 Felly, dyma'r camau ar gyfer llunio datganiad eich Casgliad Ôl-16:
 - (a) sicrhau bod yr holl ddata perthnasol ar ddisgyblion (a'r dosbarth lle bo'n briodol) wedi'u nodi'n gywir yn eich system gwybodaeth reoli;
 - (b) llunio datganiad y Casgliad Ôl-16, gan addasu ac atodi unrhyw ddata ar weithgareddau dysgu a rhaglenni astudio disgyblion a allai fod wedi'i gynhyrchu gan

eich system gwybodaeth reoli, wedi'i seilio ar wybodaeth ragosodedig am y dosbarth;

- (c) sicrhau bod y datganiad yn gywir, gan astudio adroddiadau am wallau ac ymholiadau, a'u datrys lle bo'n angenrheidiol;
- (d) cael caniatâd gan y pennaeth ac anfon y datganiad i'ch Awdurdod Lleol drwy system DEWi.

1.9 Dylid darllen y nodiadau cwblhau hyn ochr yn ochr ag unrhyw ddogfennaeth Casgliad Ôl-16 sy'n ymwneud yn benodol â meddalwedd.

2. Mewnbynnu data a gwirio data

- 2.1 Mae'r nodiadau cwblhau technegol hyn yn rhoi rhestr gyflawn o'r holl eitemau o ddata ar ddisgyblion, rhaglenni astudio, gweithgareddau dysgu ac ysgolion y mae'n rhaid eu cynnwys yn eich system a'u cyflwyno yn eich datganiad Casgliad Ôl-16. Nodwch fod y cyfeirnodau ar gyfer y meysydd data yn y ddogfen hon yn dangos y gwerthoedd data a'r tagiau fel y maent wedi'u cynnwys yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei pharatoi i'w throsglwyddo i'ch ALI a Llywodraeth Cymru. Cofiwch nad yw'r gwerthoedd a'r tagiau hyn bob amser yn cyd-daro efallai â'r ffordd y mae'r feddalwedd yn cadw'r data'n fewnol neu'n eu cyflwyno i chi ar y sgrîn.
- 2.2 Gall eich meddalwedd gynnwys cyfres o "wiriadau data" a fydd yn eich helpu i nodi a chywiro gwallau ac anghysonderau yn eich data cyn cynhyrchu eich datganiad Casgliad Ôl-16. Ewch drwy'r broses hon yn ofalus oherwydd bydd yn lleihau nifer y gwallau dilysu yn eich datganiad yn sylweddol ynghyd â'r gwaith dilynol y bydd angen i chi ei wneud i ddatrys y rhain.
- 2.3 Fodd bynnag, ni all y gwiriadau data hyn, na'r rheolau dilysu y mae'r feddalwedd yn eu defnyddio gyda'r datganiad Casgliad Ôl-16 wedi hynny, ganfod a ydych wedi mewnbynnu'r holl ddata ar ddisgyblion neu gyrsiau y dylech fod wedi'i fewnbynnu – er enghraifft bod pob gweithgaredd dysgu wedi ei gofnodi ar gyfer pob disgybl ar eich system.
- 2.4 Felly, er bod y gwiriadau data yn bwysig iawn, ni allwch gymryd yn ganiataol bod eu cwblhau'n llwyddiannus yn gwarantu bod yr holl ddata angenrheidiol yn bresennol, ac y bydd eich datganiad Casgliad Ôl-16 yn gywir. Nid yw'r ffaith nad oes unrhyw ymholiadau neu wallau dilysu yn gwarantu hynny chwaith. ***Felly mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi mewnbynnu'n llawn yn eich system yr holl eitemau data sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon.*** I'ch helpu i sicrhau eich bod wedi nodi'r data i gyd dylai eich meddalwedd allu darparu adroddiadau a/neu dablau crynhoi. Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r tablau a/neu'r adroddiadau hyn i gadarnhau bod y data rydych yn eu cyflwyno'n gywir.
- 2.5 **NODYN PWYSIG:** Oni nodir fel arall, mae'r holl eitemau data a ddisgrifir yn yr adrannau nesaf yn orfodol ar gyfer Casgliad Ôl-16 2015.
- 2.6 **Newidiadau yn y Nodiadau Cwblhau eleni**
- Mae rhestr o raglenni wedi'i hychwanegu
 - Mae'n debygol y bydd newidiadau i'r rhestr o weithgareddau dysgu a darparwyr dysgu yn ofynnol erbyn y dyddiad casglu; caiff rhestr ddiwygiedig ei chynnwys yn y fersiwn derfynol, a gaiff ei chyhoeddi ychydig cyn y dyddiad casglu.

3. Crynodeb o'r meysydd data i'w dychwelyd yng nghasgliad ôl-16 Hydref 2015

Dynodydd Ysgol

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Data Enghreifftiol
Rhif yr ALL	3	Alffaniwmerig	660
Rhif yr Ysgol	4	Alffaniwmerig	4099
Enw'r Ysgol	100	Alffaniwmerig	Ysgol Gyfun Sir Fôn
Cyfnod	2	Alffaniwmerig	SS

Manylion Arolwg

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Data Enghreifftiol
Math o Arolwg/Tynnu Data	5	Alffaniwmerig	P16
Dyddiad Cyfeirio'r Arolwg	10	Dyddiad	2015-07-31
Y Sawl sy'n Cwblhau'r Arolwg	2	Alffaniwmerig	SS
Amser Cwblhau'r Arolwg	3	Alffaniwmerig	101

Data ar ddisgyblion unigol (wedi'u cofrestru)

Dynodydd Disgybl

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Data Enghreifftiol
UPN (Rhif Unigryw'r Disgybl)	13	Alffaniwmerig	Z123456789012
ULN (Rhif Unigryw'r Dysgwr)	10	Alffaniwmerig	4674810417
UPN Blaenorol	13	Alffaniwmerig	A123456789012
Cyfenw	35	Alffaniwmerig	Jones
Enw Cyntaf	35	Alffaniwmerig	Marc
Enw(au) Canol	35	Alffaniwmerig	Iwan Owen
Dyddiad Geni	10	Dyddiad	2000-03-31
Rhyw	1	Alffaniwmerig	Gwryw

Statws Disgybl

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Data Enghreifftiol
Statws Cofrestrriad	1	Alffaniwmerig	C
Dyddiad Derbyn i'r Ysgol Gyfredol	10	Dyddiad	2013-09-01
Dangosydd Rhan Amser	1	Gwi/Anwir	Anwir
Grŵp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol y Disgybl	2	Alffaniwmerig	12

Cod Post y Disgybl	8	Alffaniwmerig	CF14 5DZ
--------------------	---	---------------	----------

Gweithgareddau dysgu

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Data Enghreifftiol
Dynodydd y Gweithgaredd Dysgu	3	Alffaniwmerig	101 (ID 01-99 yn dangos Gweithgareddau Dysgu. ID 100-999 yn dangos Rhaglen Astudio)
Cyfeirnod y Gweithgaredd Dysgu	8	Alffaniwmerig	3210001E
Categori y Gweithgaredd Dysgu	1	Alffaniwmerig	M
Dyddiad Dechrau'r Gweithgaredd Dysgu	10	Dyddiad	2014-09-01
Dyddiad Gorffen Disgwyliedig y Gweithgaredd Dysgu	10	Dyddiad	2015-07-17
Dyddiad Gorffen Gwirioneddol y Gweithgaredd Dysgu	10	Dyddiad	2015-07-12
Dangosydd LLDD	1	Alffaniwmerig	0
Gweithgaredd Dysgu wedi'i Ddarparu drwy Gyfrwng y Gymraeg	1	Alffaniwmerig	C
Y Darparwr Dysgu	8	Alffaniwmerig	S0000000
Oriau Cyswllt Dan Arweiniad	4	Rhifyddol	400
Statws Cwblhau	1	Alffaniwmerig	1

4. Gwybodaeth am ysgolion

4.1 Mae angen y **manylion adnabod a chyswllt** canlynol ar gyfer yr **ysgolion**:

Rhif yr ALI	tri rhif yn yr ystod 660-681
Rhif yr ysgol	pedwar rhif yn yr ystodau 4000-4999, 5400-5499, 5500-5599, 5900-5901 Mae'n hanfodol bod y ddau god hyn yn gywir ac wedi'u diweddarau. Os bydd unrhyw gamgymeriad (yn cynnwys rhoi hen werth ar y naill god neu'r llall) mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod derbyn eich datganiad.
Enw'r ysgol	Nodwch hwn yn llawn.

5. Data ar ddisgyblion unigol

5.1 Mae angen data ar ddisgyblion unigol ar gyfer pob disgybl mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion canol sydd wedi'u cofrestru yng ngrwpiau blwyddyn 12, 13 neu 14 a oedd ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn 01-09-2014 hyd 31-07-2015.

5.2 ***Oni nodir yn benodol ei bod yn opsiynol, ni chewch adael lle gwag ar gyfer unrhyw eitem o ddata, ac, os bydd lle gwag i'w gael, ni chaiff y data eu dilysu.*** Lle bo'n bosib, mae cyfleusterau "llenwi mewn bloc" neu "lif-lenwi" wedi'u darparu ym meddalwedd system gwybodaeth reoli eich ysgol. Cyfeiriwch at y ddogfennaeth sy'n benodol i'ch meddalwedd chi, sef y ddogfennaeth a gawsoch gan eich cyflenwr, i ganfod sut i ddefnyddio'r cyfleuster hwn wrth gwblhau'r Casgliad Ôl-16.

5.3 Mae'r gwerthoedd cod a welwch yn yr adran hon yn adlewyrchu'r gwerthoedd yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei pharatoi i'w throsglwyddo i'ch ALI a Llywodraeth Cymru. **Cofiwch, efallai nad yw'r gwerthoedd hyn yn cyd-daro bob amser â'r ffordd y mae'r feddalwedd yn cadw'r data'n fewnol neu'n eu cyflwyno i chi ar y sgrîn.**

Sut mae cofrestriad disgyblion wedi'i ddiffinio?

5.4 Mae cofrestriad disgyblion wedi'i reoli gan Reoliadau Addysg (Cofrestriad Disgyblion) 1995. Mae Rheoliad 6 yn nodi pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yng nghofrestr derbyn ysgol, ac mae Rheoliad 9 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir tynnu disgybl oddi ar y gofrestr.

5.5 Dylid darparu gwybodaeth ar gyfer disgyblion sydd ar gofrestr derbyn yr ysgol ar ddiwrnod y Cyfrifiad yn unig (yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau Addysg (Cofrestriad Disgyblion) 1995) ac ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (hy rhwng 1 Medi 2014 a 31 Gorffennaf 2015).

5.6 Os oes disgybl yn dilyn rhai gweithgareddau dysgu a ddarperir gan ysgol neu sefydliad arall, dylai data ar yr hyn a ddysgir ond gael eu cofnodi gan yr ysgol y cofrestrir y disgybl ynddi.

5.7 Dylai disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol gydag ysgol arbennig neu Uned Cyfeirio Disgyblion gael eu cynnwys yn eich datganiad.

5.8 Os oedd disgybl wedi trosglwyddo o ysgol arall neu i ysgol arall yn ystod y flwyddyn academaidd dylai pob ysgol ddarparu data ar gyfer y cyfnod yr oedd y disgybl yn ei mynychu. Os nad yw'n ofynnol i un o'r ysgolion gyflwyno Casgliad Ôl-16 (ee ysgolion annibynnol neu ysgolion y tu allan i Gymru) ni fyddai hyn yn bosibl, ond bydd angen i'r ysgol arall gyflwyno datganiad ar gyfer cyfnod y disgybl yn yr ysgol.

Pa wybodaeth sydd ei hangen am y disgyblion?

5.9 Dyma'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu ar gyfer pob disgybl:

Rhif unigryw'r disgybl (UPN)

Rhaid i hwn fod yn UPN 13 nod dilys. Bydd y feddalwedd yn sicrhau nad oes gan ddau (neu fwy) o ddisgyblion yr un UPN. Rhaid datrys gwallau o'r fath cyn cyflwyno'r datganiad. Os bydd y gwallau hyn yn y datganiad pan gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yna caiff ei wrthod.

Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN)	Rhaid i hwn fod yn rhif deg digid dilys. Ni chaniateir sero fel y nod cyntaf. Cofrestr Dysgwyr y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yw unig ffynhonnell ULN. I gael rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch y Rhifau hyn, ewch i: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/learnerregistration/?skip=1&lang=cy						
UPN Blaenorol	Lle'r oedd gan y disgybl UPN arall pan oedd yn eich ysgol chi (e.e. lle rhoddwyd UPN dros dro i'r disgybl pan ddaeth i'r ysgol gyntaf ond y cafodd ei ddisodli gan UPN parhaol a gafwyd o ysgol flaenorol). Os nad oes UPN blaenorol o'r fath yn bodoli, dylid gadael y maes hwn yn wag.						
Cyfenw	Cyfenw llawn, fel yr hyn a nodir gan yr ysgol.						
Enw cyntaf	Yn llawn, heb ei fyrhau neu'n fersiwn cyfarwydd.						
Enw(au) canol	Yn llawn, heb ei fyrhau neu'n fersiwn cyfarwydd. Os nad oes gan y disgybl enw(au) canol dylid gadael y maes hwn yn wag. Os oes gan y disgybl fwy nag un enw canol dylid gwahanu'r enwau gydag un bwlch, nid oes angen defnyddio atalnodi arall o unrhyw fath.						
Dyddiad geni	Yn y fformat ccbb-mm-dd.						
Rhyw	G (gwryw) neu B (benyw).						
Statws cofrestriad	Statws cofrestriad y disgybl. Dyma'r gwerthoedd dilys: <table> <tr> <td>C</td><td>Cyfredol (cofrestriad sengl)</td></tr> <tr> <td>M</td><td>Prif gyfredol (cofrestriad dwbl)</td></tr> <tr> <td>G</td><td>Disgybl gwadd</td></tr> </table> Yn ddelfrydol ni ddylid cynnwys disgyblion gwadd yn eich datganiad Casgliad Ôl-16 oherwydd bydd eu manylion yn cael eu dychwelyd gan yr ysgol y maent wedi'u cofrestru ynddi. Fodd bynnag, os ydych wedi'u rhoi yn eich system gwybodaeth reoli, efallai na fydd modd i'r feddalwedd eu hepgor wrth lunio'r datganiad. Yn yr achos hwn mae angen i chi nodi pwy yw'r disgyblion gwadd er mwyn iddynt gael eu hepgor wrth i'r data gael eu dadansoddi.	C	Cyfredol (cofrestriad sengl)	M	Prif gyfredol (cofrestriad dwbl)	G	Disgybl gwadd
C	Cyfredol (cofrestriad sengl)						
M	Prif gyfredol (cofrestriad dwbl)						
G	Disgybl gwadd						
Dyddiad derbyn i'r ysgol gyfredol	Yn y fformat ccbb-mm-dd. Rhaid i'r dyddiad hwn fod yn gynharach na diwrnod y Cyfrifiad (h.y. cyn 2015-07-31).						
Dangosydd rhan-amser	Gwir neu Anwir Yn nodi a yw disgybl yn rhan-amser ai peidio.						

**Grŵp blwyddyn y
Cwricwlwm Cenedlaethol**

Y grŵp blwyddyn y caiff y disgybl **ei addysgu** ynddo am y mwyafrif o'i amser, beth bynnag fo ei oedran cronolegol. Bydd y gwerthoedd canlynol yn gymwys:

- 12** grŵp blwyddyn 12;
- 13** grŵp blwyddyn 13;
- 14** y tu hwnt i grŵp blwyddyn 13.

Cod post y cartref

Gwnewch yn siŵr fod y cod post yn gywir a bod yr wybodaeth a roddir yn cyfateb i un o'r fformatau cod post dilys, sef:

An nAA
Aan nAA
AnA nAA
Ann nAA
AAnA nAA
AAnn nAA

Ile mae 'A' yn dynodi llythyren fawr ac 'n' yn dynodi rhif o 0 i 9. Y gwallau cyffredin wrth nodi codau post yw cymysgu llythrennau gyda rhifau sy'n edrych yn debyg (e.e. y llythyren 'O' gyda'r rhif sero), anghofio rhoi'r bwlch yn y canol, neu gynnwys atalnod llawn ar y diwedd. Bydd unrhyw un o'r rhain yn arwain at wrthod y cod post fel un annilys.

Dylai eich meddalwedd droi unrhyw 'O' ar ddechrau'r ail bloc cod post yn 0 (sero), a throi bylchau dwbl rhwng blociau cod post yn fylchau sengl.

6. Data ar weithgareddau dysgu a rhaglenni astudio disgyblion unigol

6.1 Bydd pob disgybl sydd wedi'i nodi ar y Casgliad Ôl-16 (gweler adran 5) yn cymryd rhan mewn un neu fwy o raglenni astudio a gweithgareddau dysgu. Mae'n rhaid cynnwys pob rhaglen a gweithgaredd dysgu y mae disgybl wedi'i "gofrestru" arno yn ystod y flwyddyn academaidd.

(Gweler Atodiad A am restr lawn o gyfeirnodau'r gweithgareddau dysgu ac Atodiad F am restr lawn o raglenni).

6.2 O ran y data ar lefel disgybl a ddisgrifir yn adran 5, ***oni nodir yn benodol ei bod yn opsiynol, ni chewch adael lle gwag ar gyfer unrhyw eitem o ddata, ac, os bydd lle gwag i'w gael, ni chaiff y data eu dilysu.*** Lle bo'n bosib, mae cyfleusterau "llenwi mewn bloc" neu "lif-lenwi" wedi'u darparu ym meddalwedd system gwybodaeth reoli eich ysgol. Cyfeiriwch at y ddogfennaeth sy'n benodol i'ch meddalwedd chi, sef y ddogfennaeth a gawsoch gan eich cyflenwr, i ganfod sut i ddefnyddio'r cyfleuster hwn wrth gwblhau'r Casgliad Ôl-16.

6.3 Mae'r gwerthoedd cod a welwch yn yr adran hon yn adlewyrchu'r gwerthoedd yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei pharatoi i'w throsglwyddo i'ch ALI a Llywodraeth Cymru. **Cofiwch, efallai nad yw'r gwerthoedd hyn yn cyd-daro bob amser â'r ffordd y mae'r feddalwedd yn cadw'r data'n fewnol neu'n ei gyflwyno i chi ar y sgrîn.**

Sut mae rhaglen astudio wedi'i diffinio?

6.4 Mae rhaglen astudio wedi'i diffinio fel cyfuniad o weithgareddau dysgu sy'n ffurfio rhaglen â diben a chanlyniad penodol, gan arwain at gyflogaeth neu addysg uwch neu addysg bellach.

Gall disgyblion gael eu cofrestru ar un rhaglen astudio yn unig ar unrhyw adeg. Gall rhaglen newydd ond gael ei chofnodi ar ôl i'r rhaglen flaenorol gael ei chwblhau (yn llwyddiannus ai peidio).

Os bydd rhaglen astudio disgybl yn newid yn ystod y flwyddyn, dylai unrhyw weithgareddau sy'n parhau'n berthnasol i'r rhaglen newydd gael eu cofnodi fel rhai sy'n parhau h.y. statws cwblhau 1 – parhau â'r rhaglen. Nid oes angen dod â'r gweithgaredd i ben a chofnodi unwaith eto.

Sut mae gweithgaredd dysgu wedi'i ddiffinio?

6.5 Mae gweithgaredd dysgu wedi'i ddiffinio fel y cwrs neu'r rhaglen ddysgu y mae disgybl yn ei dilyn gyda'r nod o ennill cymhwyster arbennig, neu uned o gymhwyster. Er enghraifft, os yw disgybl wedi'i gofrestru mewn tri dosbarth, un sy'n addysgu Ffrangeg Safon UG, un arall sy'n addysgu Mathemateg Safon UG a'r trydydd sy'n addysgu TGAU Daeareg, yna bydd gan y disgybl hwnnw dri gweithgaredd dysgu mewn Ffrangeg UG, Mathemateg UG a TGAU Daeareg yn y drefn honno.

6.6 **Dim ond y gweithgareddau dysgu hynny y bwriedir iddynt arwain at gymhwyster wedi'i ddilysu'n allanol y dylid eu cofnodi. Er enghraifft, ni ddylid cynnwys gwersi Ymarfer Corff nac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) fel gweithgareddau dysgu (heblaw bod y gwersi wedi'u llunio i arwain at asesiad sy'n cael ei ddilysu'n allanol gan gorff dyfarnu). Mae'n bwysig mai dim ond gweithgareddau dysgu dilys sy'n cael eu cynnwys felly os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch a ddylid cynnwys gweithgaredd dysgu arbennig cysylltwch â Changen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16 AdAS (manylion cyswllt ar dudalen 3).**

- 6.7 Gan fod sgiliau allweddol yn gymwysterau achrededig dylid cofnodi pob modiwl sgiliau allweddol a wna bob disgybl.
- 6.8 Rydym wedi dileu'r gofyniad i gyflwyno dangosydd Bagloriaeth Cymru. Dylai ysgolion sy'n darparu Bagloriaeth Cymru gofnodi elfen graidd Bagloriaeth Cymru fel gweithgaredd dysgu ar wahân, 4900010E (Cod a restrir ymhlith codau "eraill").
- 6.9 Bydd gwybodaeth am weithgareddau dysgu, lle y bo'n bosib, yn cael ei thynnu'n awtomatig o'ch system gwybodaeth reoli. Rydym yn cydnabod y bydd rhai sefyllfaoedd yn codi lle nad yw gwybodaeth am ddosbarth wedi'i nodi ar gyfer disgybl neu lle mae disgybl yn mynychu dosbarth ond heb fod yn ceisio ennill y cymhwyster y mae'r mwyafrif o'r dosbarth yn astudio tuag ato, ond ei fod yn anelu at ennill cymhwyster gwahanol. Er enghraifft, disgybl sy'n astudio ar gyfer GNVQ ond sy'n mynychu dosbarth lle mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn astudio ar gyfer Safon UG. Mewn sefyllfa fel hon, rhaid addasu neu atodi'r datganiad Casgliad Ôl-16 â llaw wedi i'ch meddalwedd gynhyrchu fersiwn gychwynnol eich datganiad yn awtomatig
- 6.10 Os bydd ysgol yn darparu gweithgaredd dysgu nad oes cyfeirnod gweithgaredd dysgu priodol ar gael ar ei gyfer (gweler Atodiad A i gael rhestr lawn), yna dylai'r ysgol gysylltu â'r Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16 am arweiniad ynghylch y ffordd gywir o roi cod i'r gweithgaredd dysgu.** Gwneir hyn i sicrhau y gellir adnabod yr holl weithgareddau dysgu a dyrannu'r arian yn briodol. Felly, os na ellir dod o hyd i gyfeirnod ar gyfer gweithgaredd dysgu arbennig, cysylltwch â'r **Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16** am arweiniad (gweler y manylion cyswllt ar dudalen 3).
- 6.11 Ar ben hynny, os oes rhaid i chi ddefnyddio cod cyfeirnod gweithgaredd dysgu "arall" i gofnodi gweithgaredd dysgu (e.e. 3539999E – pwnc GNVQ canolradd arall (Rhan 1)) mae'n rhaid i chi anfon e-bost at post16.plasc@wales.gsi.gov.uk gyda manylion y gweithgaredd dysgu sy'n cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod yr arian wedi'i ddyrannu'n briodol. Os na chewch ateb yn cadarnhau bod yr e-bost hwn wedi cyrraedd o fewn 7 diwrnod, cysylltwch â'r Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16 eto.**
- 6.12 Hefyd, defnyddir yr wybodaeth ychwanegol a dderbynnir i sicrhau bod rhestrau cyfeirnodau gweithgareddau dysgu'r dyfodol wedi'u diweddarau'n gywir i gynnwys yr holl ddysgu y mae ysgolion yn ei ddarparu. Rhoddir nifer o godau "Eraill" er mwyn ei gwneud yn haws adnabod y codau hyn.

Gofynion o ran gwybodaeth

- 6.13 Dyma'r wybodaeth i'w darparu ar gyfer pob gweithgaredd dysgu a rhaglen astudio a wna disgybl:

Dynodydd y Gweithgaredd Dysgu

Cod rhifyddol i adnabod yn hawdd bob gweithgaredd dysgu a wneir gan ddisgybl. Dylai pob rhaglen astudio a gweithgaredd dysgu a wneir gan ddisgybl gael rhif gwahanol; dylai rhifau ar gyfer pob gweithgaredd dysgu gychwyn gyda '01' ac yna gynyddu 1 ar gyfer pob gweithgaredd dysgu ychwanegol, a dylai rhifau ar gyfer rhaglenni astudio gychwyn gyda '100' ac yna gynyddu 1 ar gyfer pob rhaglen ddilynol.

Y gwerthoedd dilys ar gyfer gweithgareddau dysgu yw:
001, 002, 003.... hyd at 099

Y gwerthoedd dilys ar gyfer rhaglenni astudio yw:
100, 101, 102... hyd at 999

Dylai'r cod rhifyddol hwn gael ei gynhyrchu'n awtomatig ac ni fydd angen i chi roi'r wybodaeth eich hun. Cyfeiriwch at y ddogfennaeth sy'n benodol i'ch meddalwedd chi ac a roddwyd i chi gan eich cyflenwr am fwy o arweiniad.

Cyfeirnodau'r Gweithgareddau Dysgu

Mae angen i bob rhaglen astudio a gweithgaredd dysgu gael cyfeirnod gweithgaredd dysgu, sy'n dangos beth yw'r rhaglen neu'r pwnc, y math o gymhwyster a lefel cymhwyster y gweithgaredd dysgu.

Mae rhestr lawn o godau dilys a'r gweithgareddau dysgu y maent yn cyfeirio atynt yn Atodiad A. Mae rhestr lawn o godau dilys ar gyfer rhaglenni astudio yn Atodiad F.

Dylid rhoi gwybod i'r **Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16** am unrhyw raglenni neu weithgareddau dysgu nad oes cyfeirnod i'w gael ar eu cyfer (gweler paragraff 6.9).

Categori Gweithgareddau Dysgu (GWEITHGAREDDAU DYSGU YN UNIG)

At ei gilydd mae pob rhaglen astudio yn cynnwys dau fath o weithgaredd dysgu, sef: Prif ac Arall (Mae arall yn cynnwys gofynion craidd, dysgu cymunedol â ffocws diwydiant).

Ceir disgrifiad llawn o bob elfen yn y Ddogfen Canllaw ar y Framwaith Cyllido a Chynllunio Ôl-16.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/post-16-planning-and-funding/guide-to-the-framework/?lang=cy>

M Prif
O Arall

Dyddiad Dechrau'r Gweithgaredd Dysgu

Ar ffurf ccbb-mm-dd. Dylid nodi'r dyddiad hwnnw pan ddechreuodd y disgybl fynychu dosbarthiadau yn anelu at ddarparu'r gweithgaredd dysgu neu'r rhaglen astudio a nodwyd.

Disgwylir y bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu blwyddyn neu ddwy flynedd. Yn yr achosion hyn, os na wyddys y dyddiad dechrau union gywir yna gellir nodi'r dyddiad rhagosodedig 2014-09-01 ar gyfer gweithgareddau dysgu blwyddyn neu ddwy flynedd sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2014/15, a'r dyddiad rhagosodedig 2013-09-01 ar gyfer gweithgareddau dysgu dwy flynedd a ddechreuodd yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

Fodd bynnag, disgwylir y bydd ysgolion yn darparu'r dyddiadau dechrau gwirioneddol ac nid dyddiadau rhagosodedig lle bo'n bosib.

Dyddiad Gorffen Disgwyliedig y Gweithgaredd Dysgu

Ar ffurf ccbb-mm-dd. Dylid nodi'r dyddiad pan ddisgwylir i'r disgybl gwblhau'r dosbarthiadau sydd wedi'u hanelu at ddarparu'r gweithgaredd dysgu neu'r rhaglen a nodwyd. Dylid nodi'r dyddiad pan ddisgwylir i'r addysgu ddod i ben ac **nid** y dyddiad y disgwylir i'r

disgybl sefyll yr arholiad.

Disgwylir y bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu blwyddyn neu ddwy flynedd. Yn yr achosion hyn, os na wyddys y dyddiad gorffen disgwyliedig union gywir yna gellir nodi'r dyddiad rhagosodedig 2015-07-31 ar gyfer gweithgareddau dysgu blwyddyn sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2014/15 neu weithgareddau dysgu dwy flynedd a ddechreuodd yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Dylid defnyddio'r dyddiad rhagosodedig 2016-07-31 ar gyfer gweithgareddau dysgu dwy flynedd a ddechreuodd yn y flwyddyn academaidd 2014/15.

Fodd bynnag, disgwylir i ysgolion ddarparu dyddiadau gorffen disgwyliedig gwirioneddol ac nid dyddiadau rhagosodedig lle bo'n bosib.

Dangosydd Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu

Dysgwyr ag Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (LLDD) sy'n dilyn gweithgareddau dysgu arwahanol neu weithgareddau dysgu prif ffrwd. Y gwerthoedd dilys yw:

0 nid yw'n LLDD

1 LLDD wedi'i gofrestru ar weithgaredd dysgu arwahanol

2 LLDD wedi'i gofrestru ar weithgaredd dysgu prif ffrwd

Dylid ond defnyddio Cod 1 lle mae'r gweithgaredd dysgu'n ymwneud â disgybl ag anhawster dysgu a/neu anabledd sy'n mynychu amgylchedd dysgu lle mae anawsterau dysgu a/neu anableddau gan y disgyblion sydd ar yr un weithgaredd dysgu ag ef.

Dylid defnyddio Cod 2 lle mae'r gweithgaredd dysgu'n ymwneud â disgybl ag anhawster dysgu a/neu anabledd sy'n mynychu amgylchedd dysgu lle nad oes anawsterau dysgu a/neu anableddau gan y mwyafrif o'r disgyblion sydd ar yr un weithgaredd dysgu ag ef.

Gweithgaredd Dysgu a ddarperir drwy Gyfrwng y Gymraeg (GWEITHGAREDDAU DYSGU YN UNIG)

A gaiff gweithgaredd dysgu ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Y gwerthoedd dilys yw:

E gweithgaredd dysgu wedi'i ddarparu yn Saesneg yn unig

C gweithgaredd dysgu wedi'i ddarparu yn Gymraeg yn unig

P gweithgaredd dysgu wedi'i ddarparu'n ddwyieithog – model dwyieithog ffurfiol

R gweithgaredd dysgu wedi'i ddarparu drwy wahanol grwpiau iaith yn yr un dosbarth

E dim ond os yw pob agwedd ar y dysgu drwy gyfrwng y Saesneg y dylid defnyddio hwn.

C ni ddylid defnyddio hwn heblaw bod y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn cynnwys y gwaith ysgrifenedig, llafar a grŵp, a'r asesu/arholi. Ar brydiau ac o dan reolaeth lem efallai y defnyddir terminoleg ac ymadroddion allweddol Saesneg i atgyfnerthu'r dysgu.

P dylid defnyddio hwn os defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth bob yn ail mewn ffordd wedi'i chynllunio ar gyfer gwahanol fodiwlau neu gydrannau o fodiwlau gyda'r iaith yn cael ei defnyddio'n gyfan gwbl ar gyfer y gydran honno p'un a yw'r gwaith yn ysgrifenedig, yn llafar, yn waith grŵp neu'n asesiad. Addysgir y myfyrwyr fel dosbarth heb unrhyw grwpiau iaith ar wahân.

R dylid defnyddio hwn os addysgir grwpiau iaith Cymraeg a Saesneg ar wahân yn yr un dosbarth ar yr un pryd. Efallai y bydd y grŵp iaith Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg ymhlith ei gilydd a'r athro/tiwtor (os yw'n ddwyieithog) ar gyfer trafodaeth y dosbarth cyfan. Mae'r asesiad yn y naill iaith neu'r llall.

Y Darparwr Dysgu

Yn y mwyafrif o achosion y disgwyl yw y bydd y gweithgaredd dysgu wedi'i addysgu gan yr ysgol lle mae'r disgybl wedi'i gofrestru (ac felly ysgol sy'n llunio datganiad y Casgliad Ôl-16). Yn yr achos hwn dylai eich meddalwedd gwblhau'r maes gyda'r gwerth rhagosodedig **S0000000**. Mae'r cod hwn yn nodi'r ysgol gartref fel yr un sy'n darparu'r dysgu. **Nid oes angen rhoi cod yr ysgol ei hun yma, ac nid oes unrhyw fantais o wneud hynny.**

Pan ddarperir gweithgaredd dysgu drwy bartneriaeth/etholfraint neu drefniant wedi'i is-gontractio gydag ysgol neu goleg arall, dylid cwblhau cod sy'n berthnasol i'r ysgol neu'r coleg hwnnw yn y maes hwn.

**Lle bydd disgybl yn cael ei addysgu gan sefydliad arall:
Bydd yr ysgol sy'n cofrestru'r disgybl yn dangos Statws Cofrestriad y disgybl fel M - Prif, ac yn darparu data ar y Gweithgareddau Dysgu y mae'n eu darparu gyda'r cod S0000000. Dylai'r ysgol hefyd roi data ar y Gweithgareddau a ddarperir gan yr ysgol arall gyda chod yr ysgol honno.**

Mae rhestr lawn o godau dilys ac enwau'r ysgolion / darparwyr y maent yn cyfeirio atynt ar gael yn Atodiad B, C a D. Os nad oes cod priodol arall yn y rhestr, dim ond y codau'n dechrau gyda "Z" y dylech eu defnyddio.

Os yw disgybl yn dilyn gweithgarwch dysgu mewn man darparu nad oes cod ar ei gyfer, dylai'r ysgol gysylltu â'r **Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16** (mae'r manylion cyswllt ar dudalen 3) gyda manylion ynghylch y darparwr sy'n addysgu a chaiff wybod sut i lunio'r cod priodol ar gyfer y darparwr.

**Oriau Cyswllt dan
Arweiniad (RHAGLEN
ASTUDIO YN UNIG)**

Amcangyfrif o nifer yr oriau cyswllt o safbwynt addysgu, rhoi cyfarwyddyd ac asesu ar gyfer y rhaglen astudio (wedi'i dalgrynnu i rif cyfan) **yn y flwyddyn academiaidd bresennol.**

Cofnodion dilys:

0000 – 3000 awr

Ni ddylai'r oriau ond gynnwys y rhai lle y mae aelodau o staff yr ysgol yn bresennol er mwyn rhoi cyfarwyddyd penodol ynghylch gweithgareddau dysgu. Gallent gynnwys amser addysgu, astudio o dan oruchwyliaeth, er enghraifft mewn 'canolfannau dysgu agored', llyfrgelloedd, gweithdai dysgu ac yn y gweithle. Maent hefyd yn cynnwys amser cyswllt gyda staff sy'n asesu cyflawniad y disgyblion. Nid ydynt yn cynnwys oriau lle y caiff disgyblion eu goruchwyllo yn gyffredinol ac nid ydynt yn benodol i astudiaethau'r disgyblion. Nid ydynt ychwaith yn cynnwys amser astudio disgyblion pan nad ydynt yn cael eu goruchwyllo.

Dylid amcangyfrif y cyfanswm ar gyfer y rhaglen astudio.

**Dyddiad Gorffen
Gwirioneddol**

Dyddiad gorffen gwirioneddol rhaglen neu weithgaredd dysgu yn y fformat ccbb-mm-dd

Pan fo'r **Statws Cwblhau** yn 1 yna dylid gosod y dyddiad gorffen gwirioneddol fel: **9999-12-31 Bydai disgwyl hyn pan fyddai'r disgybl wedi cwblhau blwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd yn ystod y flwyddyn academiaidd**

Pan fo disgybl wedi gadael (h.y. **Statws Cwblhau** 2, 3, 4) yna dylid rhoi'r dyddiad gorffen gwirioneddol ar gyfer y rhaglen neu'r gweithgaredd dysgu.

Statws Cwblhau

Dyma'r statws cwblhau ar ddiwedd y gweithgaredd dysgu:

- 1 – yn parhau â'r gweithgaredd dysgu (rhagosodedig)**
- 2 – wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu**
- 3 – wedi tynnu'n ôl o'r gweithgaredd dysgu**
- 4 – wedi trosglwyddo i weithgaredd dysgu newydd**

7. Dilysu a chywirow gwallau

7.1 Bydd eich meddalwedd yn rhoi adroddiad manwl i chi o wallau dilysu ac ymholiadau yn eich datganiad. Mae a wnelo **“gwall”** nod neu werth anghyfreithlon mewn eitem o ddata, neu anghysondeb rhesymegol rhwng eitemau data neu rhwng gwahanol agweddau ar y datganiad. Mae gwall yn dangos bod rhywfaint o anghywirdeb yn y datganiad neu fod rhywbeth wedi'i hepgor ynddo.

7.2 Mae dau fath o **“Ymholiad”**:

- efallai ei fod yn ymwneud â nodwedd anarferol yn y data (e.e. bod disgybl yng ngrŵp blwyddyn 12 yn iau na 15 mlwydd oed), sy'n awgrymu, ond nad yw'n profi, fod rhywbeth yn anghywir neu ar goll; neu
- efallai y'i defnyddir fel cwestiwn cynorthwyol mewn meysydd lle mae'n ymddangos bod risg arbennig o uchel y gellid gweld gwallau – gweithgareddau dysgu disgyblion er enghraifft. Efallai y bydd gan rai ysgolion ddisgyblion sy'n dilyn mwy na chwe gweithgaredd o'r un fath, ond eithriadau yw'r rhain a bydd y feddalwedd yn holi ynghylch achosion o'r fath.

7.3 Rhaid archwilio ymholiadau o'r naill fath a'r llall i ganfod a oes gwall neu hepgoriad, er y gellid dod i'r casgliad bod y data'n gywir mewn gwirionedd.

7.4 Mae'n hanfodol eich bod yn datrys pob gwall **cyn cyflwyno'r datganiad** i'ch ALI. Mae hefyd yn hanfodol eich bod yn archwilio pob ymholiad ac yn addasu'r data lle mae'n dod i'r amlwg ei fod yn anghywir. **Bydd datganiadau sy'n cynnwys gwallau arwyddocaol pan gyrhaeddant Llywodraeth Cymru yn cael eu gwrthod a bydd rhaid eu hailgyflwyno.** Bydd yn ofynnol i'r ysgol ddiwygio'r gwallau a lanlwytho ffeil y datganiad diwygiedig drwy DEWi, sef y system ar gyfer trosglwyddo data'n ddiogel ar-lein. **Ni chaiff datganiadau eu golygu gan Lywodraeth Cymru ar ôl iddynt gael eu cyflwyno drwy DEWi.**

8. Anfon y datganiad i'ch ALI

8.1 Unwaith y bydd eich datganiad wedi'i awdurdodi gan y pennaeth dylid ei anfon i'ch ALI. Bydd y broses drosglwyddo'n amrywio o un awdurdod i'r llall felly cysylltwch â'ch ALI i gael y manylion.

8.2 ***Ni fydd Llywodraeth Cymru yn golygu'r datganiadau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno drwy DEWi.***

Amserlen	
Dyddiad	Cam Gweithredu
22 Medi 2015	DEWi yn agor ar gyfer Data Casgliad Ôl-16
Dyddiad a ddiffinnir gan yr ALI	Anfon datganiad i'r ALI
19 Hydref 2015	Rhewi Data

9. Rhagor o wybodaeth

- 9.1 Os bydd angen mwy o gyngor arnoch ynglŷn â chwblhau unrhyw ran o ddatganiad eich Casgliad Ôl-16, cysylltwch â'ch ALI yn gyntaf.
- 9.2 Os oes unrhyw gwestiynau na ellir eu hateb fel hyn, yna dylech gysylltu â'r **Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16**. Mae'r manylion cyswllt ar dudalen 3 o'r ddogfen hon.

Atodiad A: Nodiadau cwblhau manwl yn ôl y meysydd data

Pwrpas yr Atodiad hwn yw rhoi gwybodaeth lawn, hawdd ei deall, am bob maes data yn y Casgliad Ôl-16. Nid ydym yn bwriadu i hwn gymryd lle'r wybodaeth yn Adrannau 4, 5 a 6 ond ei fwriad yw ategu'r wybodaeth bwysig a welwch yn yr Adrannau hynny, a helpu pobl sy'n defnyddio'r nodiadau cwblhau hyn wrth edrych yn gyflym am wybodaeth ynghylch maes penodol.

Yn yr Atodiad hwn, mae pob maes sydd wedi'i nodi yng Nghasgliad Ôl-16 Hydref 2015 wedi'i restru ar dudalen wahanol ac mae'r manylion am y maes hwnnw i'w cael mewn fformat safonol. Mae esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob rhan o'r templed meysydd isod.

Y Fformat ar Gyfer y Meysydd Data yn yr Atodiad

Y set ddata	Enw'r set ddata [Ysgol, Disgybl neu Weithgaredd Dysgu]	Hyd y maes	Hyd y maes yn nhermau nifer y nodau
Enw'r maes	Enw'r maes fel y mae wedi'i ddefnyddio yn y ffeil XML a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan eich meddalwedd	Math o faes	Math o faes [Alffaniwmerig, Rhifyddol neu Ddyddiad]
Rhif CBDS	Cod y maes fel y mae wedi'i ddiffinio yn y Set Data Sylfaenol Cyffredin (CBDS)	Yn orfodol ar gyfer	Ar gyfer pa ddysgwyr y mae'n rhaid cwblhau'r maes [yn natganiad Hydref 2015 mae gofyn rhoi'r holl feysydd ar gyfer pob dysgwr]

Disgrifiad	Disgrifiad o'r data sy'n ofynnol
Y rheswm y mae ei angen	Gwybodaeth yn nodi pam bod angen y data hwn a sut y caiff ei ddefnyddio
Nodiadau dilys	Rhestr o'r gwerthoedd, a disgrifiadau ohonynt, y gellir eu dychwelyd o fewn y maes data. Nodwch: dyma'r gwerthoedd sy'n ofynnol yn y ffeil a gyflwynwyd gan eich system feddalwedd ac efallai eu bod yn wahanol i'r ffordd y mae'r data wedi'i gyflwyno i chi gan eich meddalwedd

Nodiadau	Unrhyw nodiadau amrywiol, yn ogystal ag esiampl o ddata dilys y gellir eu cyflwyno yn y maes.
----------	---

Rhif yr ALI

Y set ddata	Ysgol	Hyd y maes	3
Enw'r maes	ALI	Math o faes	Alffaniwmerig
Rhif CBDS	S1	Yn orfodol ar gyfer	Y dysgwyr i gyd

Disgrifiad	Rhif yr ALI
Y rheswm y mae ei angen	I nodi pa awdurdod lleol y mae'r ysgol sy'n dychwelyd y datganiad yn gysylltiedig ag ef.
Atebion dilys	Yn cynnwys tri rhif yn yr ystod 660-681 660 – Sir Fôn 661 – Gwynedd 662 – Conwy 663 – Sir Ddinbych 664 – Sir y Fflint 665 – Wreccsam 666 – Powys 667 – Ceredigion 668 – Sir Benfro 669 – Sir Gaerfyrddin 670 – Abertawe 671 – Castell Nedd Port-Talbot 672 – Pen-y-Bont ar Ogwr 673 – Bro Morgannwg 674 – Rhondda Cynon Taf 675 – Merthyr Tudful 676 – Caerffili 677 – Blaenau Gwent 678 – Torfaen 679 – Sir Fynwy 680 – Casnewydd 681 – Caerdydd

Nodiadau	Data Enghreifftiol: 660
----------	-------------------------

Rhif yr Ysgol

Y set ddata	Ysgol	Hyd y maes	4
Enw'r maes	Sefydliad	Math o faes	Alffaniwmerig
Rhif CBDS	S2	Yn orfodol ar gyfer	Y dysgwyr i gyd

Disgrifiad	Rhif yr Ysgol
------------	---------------

Y rheswm y mae ei angen	I nodi'r ysgol sy'n dychwelyd y datganiad
-------------------------	---

Atebion dilys	Yn cynnwys pedwar rhif yn yr ystodau:
---------------	---------------------------------------

4000-4999	Ysgolion uwchradd
5400-5499	Ysgolion uwchradd
5500-5599	Ysgolion Canol
5900-5901	Ysgolion uwchradd/ysgolion canol

Nodiadau	Data Enghreifftiol: 4099
----------	--------------------------

Enw'r Ysgol

Y set ddata	Ysgol	Hyd y maes	100
Enw'r maes	Enw	Math o faes	Alffaniwmerig
Rhif CBDS	S5	Yn orfodol ar gyfer	Y dysgwyr i gyd

Disgrifiad Enw'r Ysgol

Y rheswm y mae ei angen I nodi enw cywir yr ysgol sy'n dychwelyd y datganiad er mwyn diweddarau'r cofnodion.

Atebion dilys Enw llawn yr ysgol

Nodiadau Data Enghreifftiol: Ysgol Gyfun Sir Fôn

Cyfnod Ysgol

Y set ddata	Ysgol	Hyd y maes	2
Enw'r maes	Cyfnod Ysgol	Math o faes	Alffaniwmerig
Rhif CBDS	S7	Yn orfodol ar gyfer	Y dysgwyr i gyd

Disgrifiad	Cyfnod Ysgol
Y rheswm y mae ei angen	I nodi'r Cyfnodau Addysg y mae ysgolion prif ffrwd yn eu cynnig
